

**RADYR & MORGANSTOWN COMMUNITY COUNCIL
CYNGOR CYMUNED RADUR A THREFORGAN**

CYNLLUN IAITH CYMRAEG

Wedi ei ddarparu oddi wrth y Ddeddf Iaith Cymraeg 1993

Nodau ac Amcanion y Cynllun

a) Symud ymlaen yn bwrpasol ac o fewn yr adnoddau dynol ac ariannol sydd ar gael, at sefyllfa fydd yn caniatáu mynediad i wasanaethau a phrosesau democrataidd y Cyngor drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Wrth gyflawni'r nod hwn, fodd bynnag, bydd y Cyngor yn cymryd mantais llawn o'r darpariaethau ynghylch amgylchiadau ac ymarferoldeb a geir yn Adran 5(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

b) Sicrhau na wrthodir yr hawl i ddefnyddio'r iaith o ddewis i unrhyw aelod o'r cyhoedd, yn arbennig o ran cyfathrebu ysgrifenedig.

c) Bydd y Cyngor yn monitro'r Cynllun i sicrhau y cyflewnir y nodau ac amcanion hyn ac y cedwir safonau.

d) Caiff pob agwedd weinyddol ar weithredu'r cynllun hwn ei monitro hefyd.

Cynllunio a Darparu Gwasanaethau

Pan fo'r Cyngor yn cynllunio a llunio polisiau neu fentrau newydd, fe fydd yn asesu'r canlyniadau ieithyddol i sicrhau y byddant yn bodloni'r ymrwymadau a roir yn y Cynllun hwn. Hefyd, bydd polisiau a mentrau newydd yn hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg ble bynnag y bo modd ac yn rhesymol ymarferol o fewn ystyr y Ddeddf.

Darparu Gwasanaethau

Yn gyffredinol y mae cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgor yn agored i'r cyhoedd fel gwylwyr. Nid yw'r cyfyngiadau ariannol cyfredol yn caniatáu defnyddio cyfleusterau cyfieithu ar gyfer yr iaith Gymraeg fel rheol, ac ni welwyd angen am gyfleusterau felly yn ddiweddar. Sut bynnag fe gedwir hyn dan sylw.

Safonau Gwasanaethau yn y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn bwriadu gweithredu'r un ansawdd uchel i bob agwedd ar weinyddu a chyflawni'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bydd unrhyw gyfeiriad at y safonau hyn mewn cyhoeddiadau, posteri, datganiadau i'r wasg neu mewn unrhyw gyhoeddusrwydd arall a ddefnyddid o dro i dro, efallai, yn dilyn yr un safonau o ran defnydd o'r iaith Saesneg a'r iaith Gymraeg.

Bydd y Cyngor yn monitro'r safonau hyn a'r gweinyddu sydd ohonynt.

Trin Y Cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Cyfathrebu Ysgrifenedig

Y mae croeso i'r cyhoedd ysgrifennu at y Cyngor yn y Saesneg neu'r Gymraeg. Caiff pob llythyr a dderbynnir yn y Gymraeg ateb wedi ei lofnodi yn y Gymraeg bob tro y bo angen ateb.

Cedwir at yr un safonau o ran eu hateb o fewn rhyw amser, i lythyrau a dderbynnir yn y Saesneg a'r Gymraeg

Cyfathrebu ar y Teleffon

Yn anffodus, ni chyflogir unrhyw swyddog Cymraeg ei iaith gan y Cyngor ar hyn o bryd a allai drafod ymholiadau technegol neu gymhleth drwy gyfrwng y Gymraeg. Fe achubir unrhyw gyfleoedd addas i wella'r sefyllfa hon yn y dyfodol. Am y tro, felly,

gwahoddir galwyr i ysgrifennu at y Cyngor gan ddefnyddio'r iaith o'u dewis eu hunain. Fel arall, gwahoddir y galwr i barhau yn y Saesneg.

Cyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau

Fe all y cyhoedd fynychu cyfarfodydd y Cyngor ond heb gyfrannu iddynt oni wahoddir hwy i wneud hynny. Mae'r goblygiadau ariannol o ran darparu cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfodydd yn sylweddol ac, o bosib, tu allan i gwmpas adnoddau ariannol cyfyngedig iawn y Cyngor.

Cyfarfodydd Cyhoeddus a Chyfarfodydd Eraill

Ar sail y diffyg staff presennol sy'n rhugl yn yr iaith Gymraeg a difrifoldeb y cyfyngiadau ariannol, ni welir bod cynnig cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yn gynnig ymarferol hyd y gellir rhagweld.

Delwedd Gyhoeddus y Cyngor

Delwedd Gyhoeddus

Bydd enw a chyfeiriad y Cyngor, a gwybodaeth safonol arall a roir ar benawdau ei lythyrau, yn ddwyieithog.

Cyhoeddi ac Argraffu Deunyddiau ar gyfer y Cyhoedd

Bydd unrhyw gyhoeddiadau y gallai'r Cyngor eu hystyried yn y dyfodol, fel cylchlythyrau neu daflenni gwybodaeth, yn rhannol ddwyieithog i barchu'r egwyddor o gydraddoldeb.

Ar hyn o bryd darperir cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau yn yr iaith Saesneg. Ystyrir y gost o ddarparu fersiwn Cymraeg o'r cofnodion yn arfresymol a thu hwnt i'r hyn y gellir ei gosod yn rhesymol ar dalwyr Treth y Cyngor.

Hysbysebu a Chyhoeddusrwydd

Caiff rhybuddion statudol eu cyhoeddi yn y ddwy iaith yn unol â'r Ddeddf.

Gweithredu a Monitro'r Cynllun

Staffio

Ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg. Hyd yma nid yw hyn wedi achosi unrhyw anhawster. Bydd y Cyngor yn sicrhau y bydd gweithleoedd sydd ganddynt gysylltiad â'r cyhoedd, yn ceisio mynediad priodol i siaradwyr Cymraeg, fel y pennir yn angenrheidiol yn ôl y galw. Sut bynnag, bydd y Cyngor yn annog staff i ddysgu Cymraeg ac yn rhoi'r ystyriaeth ddyledus i'r angen i siarad Cymraeg wrth recriwtio. Fodd bynnag, ni roddir pwysau ar staff i symud swydd neu ddilyn hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg yn erbyn eu hewyllys oherwydd unrhyw flaenoriaethau a adlewyrchir gan y cynllun hwn yn unig.

Monitro

O bryd i'w gilydd bydd y Cyngor yn adolygu amrediad ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn y Saesneg a'r Gymraeg fel rhan o'i gais am wasanaethau da yn gyffredinol.

Fe adolygir y polisi hwn yn flynyddol.